



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 Rhif 818 (Cy.103)

2003 No. 818 (W.103)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

**Gorchymyn y Byrddau Iechyd
Lleol (Trosglwyddo Staff) (Cymru)
2003**

**The Local Health Boards (Transfer
of Staff) (Wales) Order
2003**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

O dan baragraff 22(1) o Atodlen 5B i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (1977 p.49) ac adran 126(1) a (4) o'r Ddeddf honno, fel y'i diwygiwyd gan adrannau 6(1), (2) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (2002 p.17) ac Atodlen 4 i'r Ddeddf honno, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i drosglwyddo, i Fwrdd Iechyd Lleol, a hynny drwy orchymyn, unrhyw gyflogaeion unrhyw Awdurdod Iechyd neu ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, sy'n ateb y disgrifiad penodedig.

Mae'r Gorchymyn yn trosglwyddo (*erthygl 3*) staff y pum Awdurdod Iechyd yng Nghymru a sefydlwyd gan Orchymyn Sefydlu Awdurdodau Iechyd (Cymru) 1996 (OS 1996/146), ac eithrio'r staff hynny a drosglwyddir o dan Orchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/813, (Cy.98)), i'r Byrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/148, (Cy.18)). Mae'r Gorchymyn hefyd yn trosglwyddo (*erthygl 4*) staff Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys a sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys (Sefydlu) 1992 (O.S. 1992/2741) i Fwrdd Iechyd Lleol Powys. Os caiff unrhyw staff sy'n cael eu trosglwyddo i Fyrddau Iechyd Lleol o dan erthyglau 3 neu 4 eu diswyddo yn ystod y cyfnod o 12 mis yn dilyn y dyddiad trosglwyddo, byddant yn cael

Under paragraph 22(1) of Schedule 5B to and section 126(1) and (4) of, the National Health Service Act 1977 (1977 c.49), as amended by sections 6(1), (2) and Schedule 4 of the National Health Service Reform and Health Care Professions Act 2002 (2002 c.17), the National Assembly for Wales has the power to transfer to a Local Health Board by order any specified description of employees of any Health Authority or National Health Service trust in Wales.

The Order transfers (*article 3*) the staff of the five Welsh Health Authorities established by the Health Authorities (Wales) Establishment Order 1996 (S.I. 1996/146), excluding those staff transferred under the Health Authorities (Transfer of Functions, Staff, Property, Right and Liabilities and Abolition) (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/813, (W.98)), to the Local Health Boards established by the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/148, (W.18)). The Order also transfers (*article 4*) the staff from the Powys Health Care National Health Service Trust established by the Powys Health Care National Health Service Trust (Establishment) Order 1992 (S.I. 1992/2741) to the Powys Local Health Board. If any staff who transfer to Local Health Boards under articles 3 or 4 have their posts declared redundant during the period of twelve months following the transfer date, they will transfer (*article 5*) to the Extended Employment Scheme which will attempt to

eu trosglwyddo (*erthygl 5*) i'r Cynllun Cyflogaeth Estynedig. Drwy'r Cynllun hwn gwneir ymdrech i gael swydd iddynt gydag un o gyflogwyr eraill y gwasanaeth iechyd neu gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn unol â'r gofynion ym mharagraff 22(3) o Atodlen 5B gwneir y Gorchymyn hwn yn sgil cydymffurfio ag unrhyw ofynion a ragnodwyd ynghylch ymgynghori mewn perthynas â phob un o'r cyflogeion a drosglwyddir. Mae'r darpariaethau ym mharagraffau 23, 24 a 25 o Atodlen 5B, i'r graddau y maent yn berthnasol, yn gymwys i'r cyflogeion a drosglwyddir o dan y Gorchymyn hwn.

place them with another health service employer or the National Assembly for Wales.

In accordance with the requirements in paragraph 22(3) of Schedule 5B this Order is made following compliance with any prescribed requirements about consultation in relation to each of the employees transferred. The provisions in paragraphs 23, 24 and 25 of Schedule 5B, in so far as they are relevant, apply to the employees transferred under this Order.

2003 Rhif 818 (Cy.103)**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU****Gorchymyn y Byrddau Iechyd
Lleol (Trosglwyddo Staff) (Cymru)
2003***Wedi'i wneud**19 Mawrth 2003**Yn dod i rym**1 Ebrill 2003***2003 No. 818 (W.103)****NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES****The Local Health Boards (Transfer
of Staff) (Wales) Order
2003***Made**19th March 2003**Coming into force**1st April 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a drosglwyddwyd gan adran 126(1) a (4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(a), a pharagraff 22(1) o Atodlen 5B i'r Ddeddf honno, ac sy'n arferadwy ganddo mewn perthynas â Chymru(b), ac ar ôl cynnal ymgynghoriad llawn mewn perthynas â phob un o'r cyflogeion sydd i'w trosglwyddo, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1. -(1) Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Staff) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall-

ystyr "yr Atodlen" ("*the Schedule*") yw'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "Awdurdod Iechyd" ("*Health Authority*") yw Awdurdod Iechyd yng Nghymru a sefydlwyd gan Orchymyn Sefydlu

(a) 1977 p.49, fel y'i diwygiwyd. Y diwygiadau perthnasol at ddibenion y Gorchymyn hwn yw'r rhai a wnaed gan adran 6 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (2002 p.17) ac Atodlen 4 iddi.

(b) Mewn perthynas ag a.126(1) a (4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), o'i darllen gydag adran 40 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002. Mae'r pwerau eraill y mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud odanynt wedi'u rhoi'n uniongyrchol i'r Cynulliad.

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by section 126(1) and (4) of the National Health Service Act 1977(a), and paragraph 22(1) to Schedule 5B to that Act, which are exercisable by it in relation to Wales(b), and having undertaken full consultation in relation to each of the employees to be transferred, makes the following Order:

Title, commencement and application

1. -(1) This Order may be cited as the Local Health Boards (Transfer of Staff) (Wales) Order 2003 and shall come into force on 1st April 2003.

(2) This Order applies to Wales only.

Interpretation

2. In this Order unless the context otherwise requires-

"EES employee" means a person whose contract of employment has been transferred to the Powys Local Health Board(c) under the Extended Employment Scheme;

"Extended Employment Scheme" means a

(a) 1977 c.49, as amended. The relevant amendments for the purposes of this Order are those made by section 6 of and Schedule 4 to the National Health Service Reform and Healthcare Professions Act 2002 (2002 c.17).

(b) With regard to s.126(1) and (4) of the National Health Service Act, by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), as read with section 40 of the National Health Service Reform and Healthcare Professions Act 2002. The other powers under which this Order is made are conferred directly on the Assembly.

(c) The Powys Local Health Board is established by order under section 16BA of the National Health Service Act 1977 (c.49) - see the Local Health Boards (Establishment)(Wales) Order 2003 (S.I. 2003/148, W.18)

Awdurdodau Iechyd (Cymru) 1996(a);
ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003(b);

ystyr "cyflogai CCE" ("*EES employee*") yw person y mae ei contract cyflogaeth wedi'i drosglwyddo i Fwrdd Iechyd Lleol Powys(c) o dan y Cynllun Cyflogaeth Estynedig;

ystyr "cyflogai perthnasol" ("*relevant employee*") yw unrhyw berson -

- (a) nad yw ei contract cyflogaeth gydag awdurdod iechyd a bennir yng ngholofn (1) wedi terfynu cyn y dyddiad trosglwyddo (p'un ai am fod y cyfnod o rybudd wedi dod i ben, am fod amser wedi mynd heibio neu am reswm arall); a
- (b) sydd wedi cael cynnig swydd gyflogedig gyda Bwrdd Iechyd Lleol a bennir yng Ngholofn (2) o'r Atodlen, ac eithrio Bwrdd Iechyd Lleol Powys yn unol â'r Cynllun Cyflogaeth Estynedig;

ystyr "Cynllun Cyflogaeth Estynedig" ("*Extended Employment Scheme*") yw cynllun sy'n darparu bod Bwrdd Iechyd Lleol Powys yn cyflogi, am gyfnod nad yw'n hwy na 12 mis ac sy'n dechrau ar y dyddiad trosglwyddo, bersonau y mae eu contractau cyflogi wedi'u trosglwyddo i Fwrdd Iechyd Lleol Powys yn unol ag erthygl 5 o Orchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003(ch);

ystyr "dyddiad diswyddo" ("*redundancy date*") yw'r dyddiad y mae person y mae erthygl 5 yn gymwys iddo yn cael hysbysiad ei fod wedi'i ddiswyddo;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Ebrill 2003; ac

ystyr "Ymddiriedolaeth GIG Powys" ("*the Powys NHS Trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys a sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys (Sefydlu) 1992(d).

scheme which provides for the employment by the Powys Local Health Board, for a period not exceeding 12 months commencing on the transfer date, of persons whose contracts of employment are transferred to the Powys Local Health Board pursuant to article 5 of the Health Authorities (Transfer of Functions, Staff, Property, Rights and Liabilities and Abolition)(Wales) Order 2003(a);

"Health Authority" ("*Awdurdod Iechyd*") means a Health Authority in Wales established by the Health Authorities (Wales) Establishment Order 1996(b);

"Local Health Board" ("*Bwrdd Iechyd Lleol*") means a Local Health Board established by the Local Health Boards (Establishment)(Wales) Order 2003(c);

"the Powys NHS Trust" ("*Ymddiriedolaeth GIG Powys*") means the Powys Health Care National Health Service Trust established by Powys Health Care National Health Service Trust (Establishment) Order 1992(d);

"redundancy date" ("*dyddiad diswyddo*") means the date upon which notice of redundancy given to a person to whom article 5 applies takes effect;

"relevant employee" ("*cyflogai perthnasol*") means any person -

- (a) whose contract of employment with a health authority specified in column (1) has not terminated before the transfer date (whether by expiry of notice, effluxion of time or otherwise); and
- (b) who has been offered and has accepted employment with a Local Health Board specified in Column (2) of the Schedule, other than the Powys Local Health Board pursuant to the Extended Employment Scheme.

"the Schedule" ("*yr Atodlen*") means the Schedule to this Order; and

"the transfer date" ("*y dyddiad trosglwyddo*") means 1st April 2003.

(a) O.S. 1996/146.

(b) (O.S. 2003/148, Cy 18).

(c) Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Powys drwy orchymyn o dan adran 16BA o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49) - gweler Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (OS 2003/148, Cy. 18).

(ch) O.S. 2003/813, Cy. 98).

(d) O.S. 1992/2741.

(a) S.I. 2003/813, (W.98)

(b) S.I. 1996/146.

(c) S.I. 2003/148, (W.18)

(d) S.I. 1992/2741

Trosglwyddo cyflogeion Awdurdodau Iechyd i Fyrddau Iechyd Lleol

3. Yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo, trosglwyddir contract cyflogaeth cyflogai perthnasol gydag awdurdod iechyd a bennir yng ngholofn (1) o'r Atodlen i Fwrdd Iechyd Lleol (sef un o'r Byrddau Iechyd Lleol a restrir yng ngholofn 2 o'r Atodlen) sydd wedi cynnig swydd gyflogedig i'r cyflogai perthnasol a bod yntau wedi'i derbyn.

Trosglwyddo cyflogeion Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys i Fwrdd Iechyd Lleol Powys

4. Yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo, trosglwyddir contract cyflogaeth unrhyw berson a gâi ei gyflogi, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, gan Ymddiriedolaeth GIG Powys, ac nad yw ei gontract cyflogaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Powys wedi terfynu cyn y dyddiad trosglwyddo (p'un ai am fod cyfnod o rybudd wedi dod i ben, am fod amser wedi mynd heibio neu am reswm arall) i Fwrdd Iechyd Lleol Powys.

Trosglwyddo i'r Cynllun Cyflogaeth Estynedig os bydd diswyddo yn digwydd

5. -(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i berson

- (a) y mae ei gontract cyflogaeth wedi'i drosglwyddo i Fwrdd Iechyd Lleol o dan erthygl 3 neu 4;
- (b) nad yw ei gontract cyflogaeth gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw wedi terfynu cyn y dyddiad diswyddo (p'un ai am fod cyfnod o rybudd wedi dod i ben, am fod amser wedi mynd heibio neu am reswm arall); ac
- (c) y datganwyd ei fod wedi'i ddiswyddo o'i swydd gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw yn afreidiol ar unrhyw adeg rhwng y dyddiad trosglwyddo a 31 Mawrth 2004.

(2) Yn effeithiol o'r dyddiad diswyddo, rhaid trin contract cyflogaeth rhwng person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo a'r Bwrdd Iechyd Lleol yr oedd yn cael ei gyflogi ganddo fel petai'n gontract cyflogaeth am dymor penodedig a wnaed yn wreiddiol rhwng y person hwnnw a Bwrdd Iechyd Lleol Powys.

(3) Bydd erthygl 6 o Orchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003 (Trosglwyddo cyflogeion CCE o dan y Cynllun Cyflogaeth Estynedig) yn gymwys i berson y mae ei gontract cyflogaeth wedi'i drosglwyddo i Fwrdd Iechyd Lleol Powys o dan baragraff (2) fel petai'r person hwnnw yn gyflogai CCE.

Transfer of employees of Health Authorities to Local Health Boards

3. With effect from the transfer date, the contract of employment of a relevant employee with a health authority specified in column (1) of the Schedule is transferred to the Local Health Board (being one of the Local Health Boards listed in column 2 of the Schedule) which has offered and with which the relevant employee has accepted employment.

Transfer of employees of the Powys Health Care National Health Service Trust to the Powys Local Health Board

4. With effect from the transfer date, the contract of employment of any person who, immediately before the transfer date, was employed by the Powys NHS Trust and whose contract of employment with the Powys NHS Trust has not terminated before the transfer date (whether by expiry of notice, effluxion of time or otherwise), is transferred to the Powys Local Health Board.

Transfer to Extended Employment Scheme in the event of redundancy

5. -(1) This article applies to a person

- (a) whose contract of employment has transferred to a Local Health Board under article 3 or 4;
- (b) whose contract of employment with that Local Health Board has not terminated before the redundancy date (whether by expiry of notice, effluxion of time or otherwise); and
- (c) whose post in that Local Health Board is declared to be redundant at any time between the transfer date and 31st March 2004.

(2) With effect from the redundancy date, a contract of employment between a person to whom paragraph (1) applies and the Local Health Board by which they are employed shall be treated as if it were a contract of employment for a limited term to expire on 31st March 2004 made originally between such person and the Powys Local Health Board.

(3) Article 6 of the Health Authorities (Transfer of Functions, Staff, Property, Rights and Liabilities and Abolition) (Wales) Order 2003 (Transfer of EES employees under the Extended Employment Scheme) shall apply to a person whose contract of employment has transferred to Powys Local Health Board under paragraph (2) as if such person were an EES employee.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o
dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales
under section 66(1) of the Government of Wales Act
1998(a)

19 Mawrth 2003

19th March 2003

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

YR ATODLEN

Erthygl 3

Colofn 1 <i>Awdurdodau Iechyd</i>	Colofn 2 <i>Byrddau Iechyd Lleol</i>
Bro Tâf Dyfed Powys Gogledd Cymru Gwent Morgannwg	Abertawe Blaenau Gwent Bro Morgannwg Caerdydd Caerffili Casnewydd Castell-nedd Port Talbot Ceredigion Conwy Gwynedd Merthyr Tudful Pen-y-bont ar Ogwr Powys Rhondda Cynon Tâf Sir Benfro Sir Ddinbych Sir Fynwy Sir Gaerfyrddin Sir y Fflint Tor-faen Wrecsam Ynys Môn

SCHEDULE

Article 3

Column 1 <i>Health Authorities</i>	Column 2 <i>Local Health Boards</i>
Bro Tâf Dyfed Powys Gwent Morgannwg North Wales Gogledd Cymru	Anglesey Blaenau Gwent Bridgend Caerphilly Cardiff Carmarthenshire Ceredigion Conwy Denbighshire Flintshire Gwynedd Merthyr Tydfil Monmouthshire Neath Port Talbot Newport Pembrokeshire Powys Rhondda Cynon Taff Swansea Torfaen Vale of Glamorgan Wrexham

2003 Rhif 818 (Cy.103)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

Gorchymyn y Byrddau Iechyd
Lleol (Trosglwyddo Staff) (Cymru)
2003

2003 No. 818 (W.103)

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

The Local Health Boards (Transfer
of Staff) (Wales) Order
2003

©© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00


W53/4/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090701-9



9 780110 907017